O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L  C Y M R U

# 2017 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2017

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *23 Awst 2017* |
| *Yn dod i rym* | *25 Awst 2017* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2), 83(1), 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(1)**, a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu De Cymru, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 25 Awst 2017 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Cylchfan Abercannaid i Gylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya a Dileu Cyfyngiadau) 2017.

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

**(1)** 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 82(2) a 83(1) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraffau 59(3) a 60(2) o Atodlen 8 iddi, amnewidiwyd adran 84(1) gan adran 45(2) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1991 (p.40), ac amnewidiwyd adran 84(2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p.22) a pharagraff 61 o Atodlen 8 iddi. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672 ac Atodlen 1 iddo, a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

W E L S H  S T A T U T O R Y  I N S T R U M E N T S

# 2017 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A4060 Trunk Road (Abercanaid Roundabout to Dowlais Top Roundabout, Merthyr Tydfil) (40 mph Speed Limit and Derestriction) Order 2017

| | |
|---|---|
| *Made* | *23 August 2017* |
| *Coming into force* | *25 August 2017* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road, in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2), 83(1), 84(1) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27(1) of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984**(1)**, and after consultation with the Chief Officer of Police for South Wales Police, make this Order.

**Title, Interpretation and Commencement**

**1.** This Order comes into force on 25 August 2017 and its title is The A4060 Trunk Road (Abercanaid Roundabout to Dowlais Top Roundabout, Merthyr Tydfil) (40 mph Speed Limit and Derestriction) Order 2017.

**2.**—(1) In this Order:

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

**(1)** 1984 c.27; sections 82(2) and 83(1) were amended by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraphs 59(3) and 60(2), section 84(1) was substituted by the Road Traffic Act 1991 (c.40), section 45(2), and section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), section 168 and Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984**(2)**;

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion yr aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A4060 Man i'r Dwyrain o Abercynon i Fan i'r Dwyrain o Ddowlais rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Dowlais Top ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

**Dileu Cyfyngiadau**

**4.** Bydd y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf 1984.

(a) any vehicle being used by the emergency services for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984**(2)**;

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and are being driven by a person for the time being subject to the orders of the member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the trunk road" *("y gefnffordd")* means the A4060 East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road between Abercanaid Roundabout and Dowlais Top Roundabout in the County Borough of Merthyr Tydfil.

(2) Any reference in this Order to a numbered article or Schedule is a reference to the article or Schedule bearing that number in this Order.

**Restriction**

**3.** No person shall drive any vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 miles per hour in the lengths of the trunk road specified in Schedule 1.

**Derestriction**

**4.** The lengths of the trunk road specified in Schedule 2 shall cease to be a restricted road for the purposes of Section 81 of the 1984 Act.

**(2)** 1984 p.27; diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p.21), paragraff 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p.15), paragraff 29(2) o Atodlen 8(2) i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) (mae'r amnewidiadau yn cael effaith drwy O.S. 2013/1682 yn ddarostyngedig i'r darpariaethau arbed a throsiannol a bennir yn adran 15 o Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p.22) ac Atodlen 8 iddi ac adran 50(5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p.20)).

**(2)** 1984 c.27; Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c.21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c.15), Schedule 4, paragraph 2, the Crime and Courts Act 2013 (c.22), schedule 8(2), paragraph 29(2) (substitution has effect as SI 2013/1682 subject to savings and transitional provisions specified in section 15 of, and Schedule 8 to, the Crime and Courts Act 2013 (c.22) and the Deregulation Act 2015 (c.20), section 50(5)).

**Dirymiadau**

**5.** Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A470 a'r A4060) (Abercynon – Pentre-bach, Morgannwg Ganol) (Dileu Cyfyngiadau) a (Terfyn Cyflymder 40 mya) 1985**(3)** wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n ymwneud â'r darn perthnasol o'r gefnffordd a bennir ym mharagraff 1 o Atodlen 1.

**6.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A470 a'r A4060 (Abercynon – Pentre-bach, Morgannwg Ganol) (Dileu Cyfyngiadau a Therfyn Cyflymder 40 mya) 1985 (Amrywio) 1995**(4)** wedi ei ddirymu.

**7.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Merthyr Tudful, Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful) (Dileu Cyfyngiadau) 2000**(5)** wedi ei ddirymu.

**8.** Mae Gorchymyn Cefnffordd yr A4060 (Pentre-bach, Merthyr Tudful) (Terfyn Cyflymder 40 mya) 2003**(6)** wedi ei ddirymu.

Llofnodwyd o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 23 Awst 2017

*Nina Ley*
Pennaeth yr Uned Fusnes, Rheoli'r Rhwydwaith
Llywodraeth Cymru

**(3)** O.S. 1985/1760
**(4)** O.S. 1995/681
**(5)** O.S. 2000/2701 (Cy. 176)
**(6)** O.S. 2003/1137 (Cy. 153)

**Revocations**

**5.** The Trunk Road (A470 and A4060) (Abercynon – Pentrebach, Mid Glamorgan) (De-restriction) and (40 mph Speed Limit) Order 1985**(3)** is revoked insofar as it relates to the relevant length of the trunk road specified in paragraph 1 of Schedule 1.

**6.** The A470 & A4060 Trunk Road (Abercynon – Pentrebach, Mid Glamorgan) (De-restriction and 40 mph Speed Limit) Order 1985 (Variation) Order 1995**(4)** is revoked.

**7.** The A4060 Trunk Road (Merthyr Tydfil, Merthyr Tydfil County Borough) (De-Restriction) Order 2000**(5)** is revoked.

**8.** The A4060 Trunk Road (Pentrebach, Merthyr Tydfil) (40 mph Speed Limit) Order 2003**(6)** is revoked.

Signed under authority of the Cabinet Secretary for Economy and Infrastructure, one of the Welsh Ministers.

Dated 23 August 2017

*Nina Ley*
Head of Business Unit, Network Management
Welsh Government

**(3)** S.I. 1985/1760
**(4)** S.I. 1995/681
**(5)** S.I. 2000/2701 (W.176)
**(6)** S.I. 2003/1137 (W.153)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder 40 mya

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Pentre-bach a Chylchfan Leo.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 47 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

## SCHEDULES

### SCHEDULE 1
### 40 mph Speed Limit

1. The length of the trunk road that extends from a point 320 metres south of its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout to its junction with the northern side of Leo's Roundabout, including the circulatory carriageways of Pentrebach Roundabout and Leo's Roundabout.

2. The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 47 metres north of its junction with the northern side of Leo's Roundabout to its junction with that roundabout.

## ATODLEN 2
## Dileu Cyfyngiadau

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at bwynt 320 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 195 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 47 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

4. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 85 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare hyd at bwynt 190 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol y gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare.

5. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 825 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Fach Dowlais hyd at ei chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Dowlais Top, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Fach Dowlais.

## SCHEDULE 2
## Derestriction

1. The length of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Abercanaid Roundabout to a point 320 metres south of its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout.

2. The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Leo's Roundabout to a point 195 metres north of that junction.

3. The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 230 metres north of its junction with the northern side of Leo's Roundabout to a point 47 metres north of that junction.

4. The length of the trunk road that extends from a point 85 metres south-west of its junction with the southern side of Mountain Hare Roundabout to a point 190 metres north of its junction with the northern side of that roundabout, including the circulatory carriageway of Mountain Hare Roundabout.

5. The length of the trunk road that extends from a point 825 metres south-west of its junction with the southern side of Dowlais Little Roundabout to its junction with the south-eastern side of Dowlais Top Roundabout, including the circulatory carriageway of Dowlais Little Roundabout.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4060 (CYLCHFAN ABERCANNAID I GYLCHFAN DOWLAIS TOP, MERTHYR TUDFUL) (TERFYN CYFLYMDER 40 MYA A DILEU CYFYNGIADAU) 2017**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 82(2), 83(1), 84(1) a (2) a 124(1)(d) o Ddeddf RheoleiddioTraffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, sy'n dod i rym ar 25 Awst 2017.

Effaith y Gorchymyn yw gosod terfyn cyflymder o 40 mya ac adfer y terfyn cyflymder cenedlaethol ar y darnau o gefnffordd yr A4060 rhwng Cylchfan Abercannaid a Chylchfan Dowlais Top, Merthyr Tudful a ddisgrifir yn yr Atodlenni i'r Hysbysiad hwn.

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 24 Awst 2017 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn, plan, Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r Gorchmynion sy'n cael eu dirymu yn ystod oriau agor arferol yn Llyfrgell Dowlais, Stryd yr Eglwys, Merthyr Tudful CF48 3HS neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1254217/1.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Deddfwriaeth ddrafft/ Offerynnau Statudol Lleol Drafft/ Gorchmynion Traffig Parhaol/ 2017).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**YR ATODLENNI**

**ATODLEN 1**
**Darnau o gefnffordd i fod yn ddarostyngedig i derfyn cyflymder 40 mya**

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 320 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach hyd at ei chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo, gan gynnwys cerbytffyrdd cylchredol Cylchfan Pentre-bach a Chylchfan Leo.

**THE A4060 TRUNK ROAD (ABERCANAID ROUNDABOUT TO DOWLAIS TOP ROUNDABOUT, MERTHYR TYDFIL) (40 MPH SPEED LIMIT AND DERESTRICTION) ORDER 2017**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 82(2), 83(1), 84(1) and (2) and 124(1)(d) of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, which comes into force on 25 August 2017.

The effect of the Order is to impose a 40 mph speed limit and derestrict to the national speed limit lengths of the A4060 trunk road between Abercanaid Roundabout and Dowlais Top Roundabout, Merthyr Tydfil described in the Schedules to this Notice.

During a period of 6 weeks from 24 August 2017 a copy of the Order, plan and a Statement of Reasons for making the Order and the Orders being revoked may be inspected during normal opening hours at Dowlais Library, Church Street, Merthyr Tydfil CF48 3HS or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1254217/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at www.gov.wales (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2017).

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULES**

**SCHEDULE 1**
**Lengths of trunk road to be subject to a 40 mph speed limit**

1. The length of the trunk road that extends from a point 320 metres south of its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout to its junction with the northern side of Leo's Roundabout, including the circulatory carriageways of Pentrebach Roundabout and Leo's Roundabout.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 47 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at ei chyffordd â'r gylchfan honno.

2. The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 47 metres north of its junction with the northern side of Leo's Roundabout to its junction with that roundabout.

## ATODLEN 2
### Darnau o gefnffordd lle y mae'r cyfyngiadau i gael eu dileu

## SCHEDULE 2
### Lengths of trunk road to be subject to a derestriction

1. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Abercannaid hyd at bwynt 320 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Pentre-bach.

1. The length of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Abercanaid Roundabout to a point 320 metres south of its junction with the south-eastern side of Pentrebach Roundabout.

2. Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 195 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

2. The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the northern side of Leo's Roundabout to a point 195 metres north of that junction.

3. Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 230 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol Cylchfan Leo hyd at bwynt 47 o fetrau i'r gogledd o'r gyffordd honno.

3. The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 230 metres north of its junction with the northern side of Leo's Roundabout to a point 47 metres north of that junction.

4. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 85 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Mountain Hare hyd at bwynt 190 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd ag ochr ogleddol y gylchfan honno, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Mountain Hare.

4. The length of the trunk road that extends from a point 85 metres south-west of its junction with the southern side of Mountain Hare Roundabout to a point 190 metres north of its junction with the northern side of that roundabout, including the circulatory carriageway of Mountain Hare Roundabout.

5. Y darn o'r gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 825 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Fach Dowlais hyd at ei chyffordd ag ochr dde- ddwyreiniol Cylchfan Dowlais Top, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol Cylchfan Fach Dowlais.

5. The length of the trunk road that extends from a point 825 metres south-west of its junction with the southern side of Dowlais Little Roundabout to its junction with the south-eastern side of Dowlais Top Roundabout, including the circulatory carriageway of Dowlais Little Roundabout.